



Siarad â ffrindiau am arian

Helpwr
 **Arian**



Llywodraeth EM

Helpwr ↪ Arian

Mae HelpwrArian yma i wneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach. Yma i dorri trwy'r cymhlethdod, egluro beth sydd angen i chi ei wneud a sut y gallwch chi ei wneud. Yma i'ch rhoi mewn rheolaeth gyda chanllawiau diduedd sydd wedi'u cefnogi gan y llywodraeth ac i argymhell cymorth bellach y gellir ymddiried ynddo os bydd ei angen arnoch. I gael help ariannol clir sydd ar eich ochr chi ac yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, chwiliwch am MoneyHelper.

www.helpwrrarian.org.uk



Yn nodweddiadol, nid ydych chi'n byw gyda'ch ffrindiau, felly os ydych chi am eu gweld, yn gyffredinol rydych chi'n gwneud achlysur ohono - fel taith i'r dafarn, cinio, neu oed chwarae ac ati.

A gyda ffrindiau daw priodasau, partion pen-blwydd, partion tŷ a dathliadau eraill - a all fod yn gostus ar ôl i chi dalu am anrhegion, diodydd a bwyd. Mae arian i'w wario bob amser.

Gall fod yn anodd dweud wrth eich ffrindiau na allwch fforddio ei fyw bob nos ond mae ffyrdd bob amser o dorri lawr a gweld eich ffrindiau o hyd.

Dweud wrth eich ffrindiau na allwchfforddiomyndallan

Mae eich ffrindiau'n ffrindiau i chi am resymau y tu allan i faint o arian rydych chi'n ei wneud neu'n gorfod ei wario. Mae'n annhebygol iawn y byddant yn rhoi'r gorau i gymysgu gyda chi dim ond oherwydd na allwch ymuno â nhw mewn gweithgareddau sy'n costio llawer o arian.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol eu bod yn gwybod pa incwm gwario sydd gennych, neu os ydych dan bwysau l dalu'r biliau. Os na ddywedwch wrthynt, ni fyddant yn gwybod.

Os nad yw'r bobl sydd agosaf atoch yn wir ddim yn gwybod beth sy'n digwydd gyda chi, mae'n debygol ei bod yr un mor anghyfforddus iddyn nhw os ydych chi'n osgoi neu'n gwneud esgusodion yn gyson ynghylch pam na allwch chi dreulio amser gyda nhw.

Dyma ychydig o awgrymiadau a allai helpu:

Eisteddych gyda nhw ac egluro ei bod yn bwysig i chi gynilo ar gyfer XYZ, felly rydych chi'n chwilio am ffyrdd i gadw costau'n isel. Efallai y byddan nhw hyd yn oed yn cynnig rhai awgrymiadau.

Cymerwch reolaeth ar achlysuron cwrdd a cheisiwch ganoli'ch amser gyda'ch gilydd o amgylch gweithgareddau rhad ac am ddim, gallant fod yr un mor ddifyr â gweithgareddau costus. Cymerwch y swm o arian y gallwch fforddio ei wario yn unig. Gallwch chi bob amser adael i'r bobl rydych chi gyda nhw wybod faint sydd gennych chi a phan fydd wedi mynd bydd wedi mynd. Efallai y bydd hyd yn oed yn eich helpu chi a'ch ffrindiau i flaenoriaethu'r hyn yr hoffech chi ei wneud fwyaf o ystyried yr arian sydd ar gael.

Gofynnwch i'ch ffrindiau a fyddent am fod yn 'Gefnogwr Cynilion' - rhywun sy'n eich helpu i gyrraedd eich nodau cynilo. Dywedwch wrthyn nhw am beth rydych chi'n cynilo a faint sydd ei angen arnoch chi. Yna gall eich ffrind gael sgwrsiau rheolaidd gyda chi i wirio'ch cynnydd a'ch cefnogi ar eich taith. Beth am gyfnewid cefnogaeth hyd yn oed - gyda beth allen nhw ddefnyddio'ch help chi?

Mae ymchwil hefyd yn dangos, os ydym yn rhoi gwybod i bobl am ein targedau cynilo, mae'n helpu i ni ddal i ganolbwyntio ac rydym yn cyrraedd ein nod yn gyflymach na phe byddem wedi cadw'n dawel yn ei gylch.

Sut i ddelio â ffrindsy'n gofyn am fenthygarian

Os yw ffrind yn gofyn am fenthyg rhywfaint o arian parod, gall fod yn anodd iawn dweud na. Nid ydych chi am eu colli fel ffrind oherwydd dadlau ynghylch arian, ond ar yr un pryd, rydych chi'n poeni amdany'n nhw, felly rydych chi am eu helpu.

Gall benthycu arian i ffrind roi straen ar berthynas, yn arbennig pe byddech chi'n ei chael hi'n anodd mynd ar eu holau am arian sy'n ddyledus neu os byddech chi'n ei chael hi'n anodd pe na fydden nhw'n eich talu'n ôl. Os yw hyn yn wir, mae'n debygol ei bod yn well peidio â rhoi benthyc yr arian.

Peidiwch â theimlo'n euog am beidio â rhoi benthyc arian i ffrind. Gallwch eu cefnogi mewn ffyrdd eraill, megis trwy eu gwneud yn ymwybodol o'n gwefan a bod gennym gynnwys ar [beth i feddwl amdano cyn i chi fenthyca](#) a [helpu iddi dorri nôl ar wariant](#).

Gallwch hefyd eu cefnogi trwy ddweud na - wedi'r cyfan, nid yw cronni dyled a allai niweidio'r berthynas yn mynd i helpu'ch ffrind.

Os ydych chi'n ystyried benthycu arian, gofynnwch y cwestiynau dilynol i chi'ch hun:

A allaf ei fforddio? Edrychwch ar eich cyllideb eich hun i sicrhau nad ydych chi'n mynd i gael eich hun i drafferthion ariannol yn gyntaf. Allwch chi fforddio peidio â chael yr arian yn ôl? Gall ein [Cynlluniwr Cyllideb](#) helpu.

A allan nhw ei fforddio? Os na fyddan nhw'n gallu eich talu'n ôl yn llawn, rydych chi'n agor eich hun i fyd cyfan o drafferth. Os na allant brofi y gallant eich ad-dalu, peidiwch â rhoi benthyc yr arian iddynt. Fe allech chi hyd yn oed rannu ein tudalen am [ddylech fenthyg arian gan deulu neu ffrindiau](#).

Pa mor ffurfiol fydd y trefniant hwn? Os penderfynwch roi benthyc rhywfaint o arian i'ch ffrind, mae bob amser yn syniad da ei gael yn ysgrifenedig, p'un a yw'n e-bost yn unig neu'n rhywbeth mwy ffurfiol fel contract.



Caelarian a roddwyd ar fenthyg yn ôl

Gall gofyn i ffrindiau ad-dalu'r arian sy'n ddyledus ichi fod yn eithaf ingol. Mae'n arbennig o ddrwg os ydych chi'n gwybod bod eich ffrind heb ariab ac y bydd yn ei chael hi'n anodd cael yr arian.

Os ydych chi wir yn gwerthfawrogi'ch cyfeillgarwch, mae'n bwysig peidio â mynd yn wrthdrawiadol wrth ofyn am eich arian yn ôl.

Gallech chi dybio'r gorau beth bynnag, bod y ffrind ond wedi anghofio, ac yna ceisio procio eu cof ag ychydig o awgrymiadau penodol.


Yn dibynnu ar sut y mae'n well gennych wneud pethau, weithiau gall fod yn haws cael trafodaethau am roi a chael benthyg arian parod os gwnewch hynny trwy negeseuon testun neu e-bost. Mae hyn hefyd yn golygu bod gennych bopeth yn ysgrifenedig am faint o arian parod sydd dan sylw a phryd y bydd yn cael ei dalu'n ôl.

Efallai y byddai'n werth ychwanegu ymdeimlad o frys at eich cais fel bod eich ffrind yn deall eich bod bellach mewn sefyllfa anodd oherwydd i chi fenthyg yr arian iddynt. Efallai y bydd ymadroddion fel 'Mae'n ddrwg gen i ofyn hyn, ond dw i wir angen yr arian hwnnw yn ôl erbyn XX oherwydd bod rhaid i mi dalu XX yn ôl', yn gwneud y tric.

Os bydd pob trafodaeth yn chwalu ac nad ydych yn credu y byddwch yn gallu cael eich arian yn ôl trwy siarad yn unig, fel dewis olaf gallwch chi ofyn am gymorth cyfreithiol a [gwneud hawliad llys am arian](#).

Mae'n werth nodi nad yw gwneud cais yn rhad ac am ddim ac mae'n dechrau o £23 pan fyddwch chi'n hawlio hyd at £300.

Os yw'r arian rydych chi wedi'i fenthyg i'ch ffrind nawr yn golygu eich bod chi'n cael trafferthion ariannol, dylech chi [addasu'ch cyllideb](#).



Helpwr Arian

Arian bob dydd

Mae HelpwrArian ymaiwneudeich ariana'ch dewisiadaupensiwnyngliriach. Yma i'chrhoimewnrheolaethgydachymorthdidueddsyddareichochrchi,gyda chefnogaethlywodraethacynrhadacamddimi'wdddefnyddio.



Ffôn **08001380555***



Typetalk **1800108009154622***



LluniWener,8ami6pm

Amragorhelpgwelereincanllawiauareingwefan:

Siaradâchi'chhunamarian
Siaradâ'chpartneramarian
Siarad âffrindiau am arian
Siaradâphoblhÿnamarian

Darparwyd gar



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

* Mae galwadau am ddim. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth o safon i chi, felly gellir recordio neu fonitro galwadau at ddibenion hyfforddi ac i'n helpu i ddatblygu ein gwasanaethau.

Ref: MH_RS0002W